# Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

**6/5/25**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Alwyn M Roberts (Cadeirydd), Beryl Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Alwyn Jones, Heledd Jones, Huw P Roberts, Dewi Wyn Jones, Lis Puw, Euros Roberts a Llinos Edwards.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Sir Alan Jones Evans a Huw Antur (Clerc a Swyddog Cyllid).

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

**3179** **Croeso:** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, a diolchodd am y fraint o gael fel cadeirydd y cyngor am y flwyddyn.

**3180** **Ymddiheuriadau:** Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau.

**3181** **Datganiadau o fuddiant:** Ni ddatganwyd buddiant.

**3182** **Cofnodion Cyfarfod Ebrill 2025:** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**3183** **Materion yn codi / materion y Clerc:**

i. Grŵp Cynefin – Datblygiad Maes y Pandy: Croesawyd Gwyndaf a Catrin o Grŵp Cynefin i'r cyfarfod, i drafod datblygiad posibl ar y llain tir ger Maes y Pandy. Eglurwyd fod Grŵp Cynefin yn datblygu cynllun a fyddai'n cynnwys 7 tŷ, datblygiad cymysg o dai 2 lofft, tai 3 llofft a bynglos, gyda rhai o'r tai i'w rhentu fel tai cymdeithasol, rhai i'w rhentu fel tai canolraddol, a rhai o bosibl i'w gwerthu fel 'Tŷ Gwynedd' ar sail rhan berchenogaeth.
Nodwyd fod bwriad gan GC i gyflwyno cais cynllunio yn fuan, ac y bydd gan y Cyngor Cymuned gyfle bryd hynny i fynegi barn ffurfiol am y datblygiad.
Cafwyd trafodaeth ar y datblygiad ac fe nodwyd:
   - Fod angen sicrwydd fod galw lleol am y datblygiad.
   - Fod pryder am godi 7 tŷ ar yr un tro, ac y gallai datblygu'r tai mewn dwy neu dair gwedd fod yn fwy addas i'r ardal.
   - Fod angen Diwrnod Agored i hyrwyddo'r cyfleon i'r ardalwyr.
   - Fod pryder am draffig a threfniadau parcio yn yr ardal yma fel y mae.

   Diolchwyd i Gwyndaf a Catrin am eu cyflwyniad, a gofynnwyd i'r clerc anfon crynodeb o'r pryderon iddyn nhw, ac yna iddyn nhw anfon manylion pellach am y rhestr Tai Teg a allai ddangos fod angen am y datblygiad.

ii. Deffib / Ciosg Cwm Cynllwyd: Derbyniwyd ymateb gan BT yn nodi fod y ciosg yn parhau yn weithredol, ac na fyddai modd felly gosod y deffib o fewn y ciosg. Gofynnwyd i'r Cyng Alan Evans ymchwilio i'r posibilrwydd o osod y deffib ar y llain tir ger y ciosg.

iii. Cerrig beddi Mynwent yr Eglwys: Nodwyd fod y drafodaeth yma yn parhau hefo'r Eglwys yng Nghymru.

iv. Cyfarfod gyda'r Heddlu 23.4.25: Cafwyd adroddiad gan y Cyng Arwel Ll Jones a Huw P Roberts a nodwyd eu bod wedi trafod y problemau parcio ger Maes y Pandy.

v. Gwasanaeth Bysiau T3: Nodwyd fod y cyngor yn parhau i ddisgwyl penderfyniad ar y trefniant i wasanaeth bws T3 ddod i'r pentref (hyd at fynedfa Ysgol O M Edwards).

vi. Cofnodi Enwau Tirwedd Lleol: Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod a gynhaliwyd ar Ebrill 30ain, a nodwyd fod bwriad i drefnu cyfres o deithiau cerdded hanesyddol a fyddai'n cyfeirio at enwau nodweddion lleol. Adroddwyd fod y Parc Cenedlaethol yn ystyried rhoi cyllideb i'r Cyngor Cymuned i ddatblygu'r syniadau yma ymhellach. Nodwyd y bydd cyfle eto i gofnodi enwau mewn sesiwn yng Ngweithdy'r Saer ar Fehefin 19eg.

vii. Cynllun Ardal: Cytunwyd i ail fabwysiadau'r Cynllun Ardal fel sail i weithgaredd a phenderfyniadau'r cyngor, ac fe nodwyd y gellid ychwanegu rhai casgliadau o gyfrifiad 2021 at y wybodaeth.

viii. Clirio a thacluso'r fynwent: Adroddwyd fod tim o'r cynghorwyr wedi bod yn clirio'r fynwent ar Ebrill 14eg, a diolchwyd iddynt am eu gwaith.

ix. Agoriad Canolfan Bro Tegid 14.5.25: Gofynnwyd i'r Cyng Lis Puw ac Arwel Ll Jones gynrychioli'r cyngor yn yr agoriad yma.

**3184 Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Alan Evans, a dywedodd ei fod mewn trafodaeth gyda swyddogion Cyngor Gwynedd ynglŷn â chreu bwlch i gysylltu Llwybr Tegid gyda Llwybr Cei, ynglŷn â'r angen am linellau melyn dwbl ger Maes y Pandy, ac ynglŷn â'r gorlifo ger Pont Lliw.

**3185 Derbyniwyd adroddiadau'r is-bwyllgorau:**

1. Pwyllgor Datblygu: Nodwyd fod y pwyllgor yn adolygu'r Cynllun Ardal ac yn monitro'r sefyllfa dai yn yr ardal.
2. Pwyllgor Mynwentydd: Nodwyd fod angen ail godi'r drafodaeth ar leoliad cyrbau yn y fynwent, a bod angen galw cyfarfod o'r is bwyllgor i ystyried hyn.
3. Bioamrywiaeth: Cytunwyd i blannu blodau mewn twb ger y toiledau cyhoeddus (Arwel Ll Jones i drefnu) a nodwyd fod rhai aelodau wedi bod yn cynorthwyo i glirio'r coed yng nghoedlan y fynwent.
4. Nadolig: Heb gyfarfod yn ddiweddar.
5. Asedau: Adroddwyd fod meinciau'r pentref wedi eu trwsio a'u paentio, ac fe gytunodd y Cyng Arwel Ll Jones i gael golwg ar asedau eraill y cyngor yn yr ardal.
6. Cyllid: Cytunwyd y bydd angen i'r pwyllgor gyfarfod pan fydd dogfennau ariannol y cyngor am y flwyddyn 2024/2025 yn barod i'w cyflwyno i Archwilio Cymru.

**3186 Materion Ariannol:** Cymeradwywyd taliadau fel â ganlyn:

Cyflog a threth incwm y Clerc.
Cytundeb glanhau y toiledau.
Anfoneb nwyddau glanhau'r toiledau.
Anfonebau am drwsio a phaentio meinciau'r cyngor.
Anfonebau am dorri gwair y Fynwent Newydd a Mynwent yr Eglwys.
Anfoneb Archwilio Cymru am archwiliad 2023/2024.
Anfoneb yswiriant y cyngor am y flwyddyn 2025/2026.
Nodwyd fod incwm y toiledau cyhoeddus am fis Ebrill yn £115.75.

Derbyniwyd cais am gyfraniad ariannol y cyngor cymuned gan Adran Bentref yr Urdd a Chlwb Llan, ac fe gytunwyd i gyfrannu £100 tuag at gostau tocynnau mynediad i Eisteddfod yr Urdd ym Mhort Talbot ddiwedd Mai.

Nodwyd derbyn 50% o braesept y cyngor am y flwyddyn, sef £8,400.00

3187 **Menter Gymunedol Llanuwchllyn:** Rhoddwyd diweddariad o waith y fenter yn datblygu cynlluniau ar gyfer mynedfa a maes parcio newydd i'r Eagles, ac yn datblygu syniadau ar gyfer tai cymunedol yn y pentref. Gwnaed sylw fod angen i'r fenter anfon diweddariad i'w haelodau er mwyn i bawb fod yn ymwybodol o'r gwaith sy'n mynd ymlaen.

3188 **Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Rhoddwyd adroddiad o waith diweddar y cwmni, hyn yn cynnwys datblygu gwaith yr Hwb Llesiant, creu swydd newydd Swyddog Ffiws, a chwblhau'r gwaith o uwchraddio Canolfan Bro Tegid.

3189 **Materion cynllunio:** Nid oedd materion cynllunio i'w trafod.

3190 **Gohebiaeth:**

i. Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am gyfarfod Rhanbarth Meirionnydd ar Fai 14eg, am y cyfle i gyflwyno cynigion i'r Cyfarfod Blynyddol, ac am eu Rhaglen Hyfforddiant am y misoedd nesaf.
ii. Parc Cenedlaethol Eryri: Derbyniwyd copi o newyddlen Natur Eryri, a gwahoddiad i gyfarfod o Fforwm Cymunedau Eryri ar Fai 8fed. Gofynnwyd i'r clerc gynrychioli'r cyngor.
iii. Dwr Cymru: Derbyniwyd gwahoddiad i gyflwyniad ar y gwaith diweddar ar Lyn Celyn, a gofynnwyd i'r Cyng Alan Evans gynrychioli'r cyngor yn y cyfarfod.
iv. Dr Duncan Pritchard: Derbyniwyd llythyr gan y Dr Pritchard yn gwrthwynebu cystadleuaeth pysgota ceufad ar Lyn Tegid fis Medi. Cytunwyd i gydnabod y neges.

3191 **Ystyried materion lleol y Cynghorwyr:** Tynnwyd sylw'r cyngor fod polyn BT yn eithriadol o gam ger Caermeini, ac fe gytunodd y Cyng Heledd Jones i gysylltu hefo BT.

3192 **Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 3/6/25 am 7.30pm.

Arwyddwyd……………………………………(Cadeirydd) ____/____/______……………………………(Clerc)